Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# How Health and Care Research Wales supports public involvement for your COVID-19 research

The public involvement team at Health and Care Research Wales continue to support public involvement during the COVID-19 pandemic and are prioritising all work related to COVID-19 studies.

The public involvement team are available Monday to Friday and can be contacted via email at research-involvement@wales.nhs.uk

**Rapid response to your request for involvement**

- We are here to help you find members of the public to be involved and to provide feedback on your research.
- We can work with you to fast track your involvement support.

**Management and offers of payments for time**

- We will work with you to support virtual meetings.
- We have produced a guide with useful tips for virtual public involvement to help you in those meetings.
- We will manage the offer of payments for time for any developmental work.

**Are you working with the Health and Care Research Wales infrastructure?**

If you go directly to groups such as the clinical trials units, Research Design and Conduct Service, please let us know so that we can ensure we are offering our support for the public involvement.

To request public involvement support complete our online form, or contact the public involvement team at research-involvement@wales.nhs.uk.

“The public involvement team went out of their way to respond to my request for urgent public involvement input into a COVID-19 grant application. Within three days they had produced and posted an advert and had responses from eight interested members of the public. They sorted out all the paper work and payments. The input I received from the public representatives was invaluable and helped to shape the application. Much appreciated.”
Claire Nollett - Trial Manager, Centre for Trials Research

# Sut y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cefnogi cynnwys y cyhoedd ar gyfer eich ymchwil COVID-19

Mae'r tîm cynnwys y cyhoedd yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n parhau i gefnogi cynnwys y cyhoedd yn ystod y pandemig COVID-19 ac maen nhw'n blaenoriaethu'r holl waith sy'n gysylltiedig ag astudiaethau COVID-19.

Mae'r tîm cynnwys y cyhoedd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener a gellir cysylltu â nhw trwy e-bost y cynwys-ymchwil@wales.nhs.uk

**Ymateb cyflym i'ch cais am gynnwys y cyhoedd**

- Rydyn ni yma i'ch helpu chi i ddod o hyd i aelodau'r cyhoedd i'w cynnwys ac i roi adborth ar eich ymchwil.
- Gallwn ni weithio gyda chi i gael cefnogaeth i gynnwys y cyhoedd ar garlam.

**Rheoli a chynnig taliadau am amser**

- Byddwn ni'n gweithio gyda chi i gefnogi cyfarfodydd rhithwir
- Rydyn ni wedi cynhyrchu canllaw gydag awgrymiadau defnyddiol ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn rhithwir i'ch helpu chi yn y cyfarfodydd hynny.
- Byddwn ni'n rheoli'r cynnig taliadau am amser ar gyfer unrhyw waith datblygiadol.

**Ydych chi'n gweithio gyda seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru?**

Os ydych chi'n mynd yn uniongyrchol at grwpiau fel yr unedau treialon clinigol, y Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil, rhowch wybod i ni fel ein bod ni'n gallu sicrhau ein bod ni'n cynnig ein cefnogaeth ar gyfer cynnwys y cyhoedd.

I ymgeisio am gefnogaeth i gynnwys y cyhoedd, llenwch y ffurflen ar-lein a ganlyn, neu cysylltwch â'r tîm cynnwys y cyhoedd yn cynwys-ymchwil@wales.nhs.uk.

"Aeth y tîm cynnwys y cyhoedd i drafferth arbennig i ymateb i'm cais am fewnbwn y cyhoedd ar frys ar gyfer cais am grant COVID-19. O fewn tridiau, roedden nhw wedi cynhyrchu a phostio hysbyseb ac wedi cael ymatebion oddi wrth wyth o aelodau'r cyhoedd a oedd â diddordeb. Gwnaethon nhw drefnu'r holl waith papur a thaliadau. Roedd mewnbwn cynrychiolwyr y cyhoedd yn hynod werthfawr ac fe helpodd hyn i lunio'r cais. Diolch o galon."
Claire Nolett – Rheolwr Treialon, y Ganolfan Ymchwil Treialon